**Warning Concerning Copyright Restrictions**

The copyright law of the United States (Title 17, United States Code) governs the making of photocopies or other reproductions of copyright material. Under certain conditions specified in the law, libraries and archives are authorized to furnish a photocopy or other reproduction. One of these specified conditions is that the photocopy or reproduction not be "used for any purposes other than private study, scholarship, or research." If a user makes a request for, or later uses, a photocopy or reproduction for purposes in excess of "fair use," that use may be liable for copyright infringement.

# CHWEDYL IARLLES Y FFYNNAWN

YR amherawdyr Arthur oed yg Kaer Llion ar Wysc. Sef yd oed yn eisted diwarnawt yn y ystauell, ac y gyt ac ef Owein uab Uryen, a Chynon uab Clydno, a Chei uab Kyner; a Gwenhwyuar a'e llawuorynyon yn gwniaw wrth ffenestyr. A chyt dywettit uot porthawr ar lys Arthur, nyt oed yr vn. Glewlwyt Gauaeluawr oed yno hagen ar ureint porthawr y aruoll ysp a phellennigyon, ac y dechreu eu hanrydedu, ac y uenegi moes y llys a'e deuawt udunt; y'r neb a dylyei vynet y'r neuad neu y'r ystauell, o'e venegi idaw; y'r neb a dylyei letty, o'e venegi idaw. Ac ym perued llawr yr ystauell yd oed yr amherawdyr Arthur yn eisted ar demyl o irvrwyn, a llenn o bali melyngoch y danaw, a gobennyd a'e dudet o bali coch dan penn y elin.

Ar hynny y dywawt Arthur, 'Ha wyr, pei na'm goganewch,' heb ef, 'mi a gyskwn tra uewn yn aros vy mwyt; ac ymdidan a ellwch chwitheu, a chymryt ysteneit o ved a golwython y gan Gei.' A chyscu a oruc yr amherawdyr.

A gofyn a oruc Kynon uab Klydno y Gei yr hynn a adawssei Arthur udunt. 'Minneu a vynnaf yr ymdidan da a edewit y minneu,' heb y Kei. 'Ha wr,' heb y Kynon, 'teckaf yw itti wneuthur edewit Arthur yn gyntaf, ac odyna yr ymdidan goreu a wypom ninneu, ni a'e dywedwn itti.' Mynet a oruc Kei y'r gegin ac y'r vedgell, a dyuot ac ysteneit o ved gantaw, ac a gorvlwch eur, ac a lloneit y dwrn o vereu a golwython arnadunt. A chymryt y golwython a wnaethant, a dechreu yvet y med.

The text begins at R, col. 627, and J, f. 16a; W is wanting, 1–35.
1 *a oed* J. 2 *yn y stauell* J. 3 *Kynyr* J. 6 *hagen oed yno* J. 6 *erbynnyeit ysp* J. 8 *y neb* J. 8–9 *dylyey lety o'e venegi idaw y neb a dylyei vened y'r neuad neu y'r stauell o'e venegi idaw. Ac* J. 11 *pali melyn* J. 12 *a'r gobennyd* J. 13 *Arthur a dywawt* J. 13 *goganawch* J. 16 *oruc Arthur* J. 18 *heb y Kei* after *vynnaf* J. 21–22 *y'r vedgell ac y'r gegin* J. 22–23 omit *ac* twice J. 24 *A chymryt*: *Kymryt* J.